

# Cylchlythyr Mis Mai



Mae mis Mai wedi bod yn hanner tymor byr sydd wedi hedfan! Rydym wedi bod yn lwcus gyda'r tywydd ac wedi cynnal nifer o weithgareddau yn yr awyr agored.

Rydym eto wedi bod yn brysur gyda digwyddiadau **traws gwlad**. Llongyfarchiadau mawr i Evan Roberts sydd wedi ennill cystadleuaeth genedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth ar Fai 11<sup>eg</sup>. Yn ras olaf y flwyddyn yn Marches, Croesoswallt, enillodd Evan y gystadleuaeth gyfan ar ôl ennill 4 ras drwy'r flwyddyn. Unwaith eto, yn y ddwy ras olaf yn y Marches, roedd llawer o'n disgyblion wedi cystadlu sydd yn wych i'w weld. Da iawn i bob disgybl a redodd yng nghystadlaethau traws gwlad eleni.

Gwnaethom benderfyniad i gymryd pawb yng nghyfnod allweddol 2 i **dwrnamaint tennis** yn Llanfyllin eto eleni. Mae'n ddiwrnod gwych gyda phob plentyn yn medru dangos eu sgiliau tennis. Llongyfarchiadau i Evan, Ifan, Aled a Jack sydd yn mynd ymlaen i'r rownd sir.

Ar Fai 17<sup>eg</sup>, aeth dosbarth Miss Watkins a dosbarth Mrs Roberts-Law ar eu trip i **Sŵ Gaer**. Roedden wedi bod yn brysur iawn yn cynllunio eu trip yn y dosbarth wrth astudio eu thema 'Ein Byd'. Fe gafodd y disgyblion a'r staff ddiwrnod gwych yn gweld yr holl anifeiliaid. Doedd ddim yn sypreis i mi fod y staff wedi nodi ymddygiad gwych y disgyblion. Da iawn i bawb.

Hefyd fel rhan o'u thema, bu disgyblion y **cyfnod sylfaen** yn dysgu am bwysigrwydd defnyddio llai o blastig. Aethon i hela sbwriel o amgylch y pentref a cawson hyd i lawer o blastig. Ar ôl hynny, chwason sesiwn Skype gydag athrawes sy'n arwain y 'Skype Plastic Cleanup Brigade' ble roedden wedi dysgu am wahanol blastigau a'u heffaith ar yr amgylchedd.

Yn **CA2**, mae dosbarth Mrs Turner a dosbarth Mr Richards/Miss Lowri Roberts wedi dechrau eu thema 'Chwilotwyr Di-Ofn'. Hyd yn hyn mae nhw wedi cynllunio a chreu darnau o ysgrifennu ffeithiol a ffuglen am wlad go iawn neu dychmygol. Mae nhw hefyd wedi dechrau dysgu am y Rhufeiniaid ac wedi creu patrymau mosäig gyda Miss Roberts. Rydym yn edrych ymlaen at ein trip i Gaer i ddysgu mwy ar ôl hanner tymor.

Diolch i'r staff a'r 3 teulu a helpodd gyda'r **noson garddio** ar Ddydd Mercher. Gwnaethom geisio glirio'r chwyn a'r dalan poethion. Mae yna lawer mwy i'w wneud a gobeithiwn y byddwn yn pennu noson arall tymor nesaf a chael mwy i gefnogi, os yw hyd yn oed am awr. Diolch yn fawr i Heather a Becca am weithio mor galed drwy gydol y flwyddyn ac am barhau â'r clwb garddio.

Cynhaliwyd **Diwrnod Fy Myd** ar Ddydd Iau olaf yr hanner tymor fel rhan o Diwrnod Dysgu yn yr Awyr Agored. Gweithiodd y disgyblion gyda'i gilydd tu allan yn eu tai ar dasgau a gynlluniwyd gan Mrs Turner (gwrthfwlio), Miss Watkins (dinasyddiaeth) a Mrs Roberts-Law (her tu allan). Ffocws y bore oedd datganiadau Hawliau Plant Cymru sydd yn cael eu trafod gyda'r disgyblion yn aml. Edrychwch ar wefan yr ysgol am fwy o wybodaeth a luniau.

Mae ein CRhA wedi bod yn llwyddiannus unwaith eto. Fe gynlluniwyd **Hwyl Haf** ardderchog eto eleni. Cymerodd 34 fîm o'r ardal rhan yn y twrnaint ac roedd bwrlwm i'w gael yng ngweithgareddau a'r stondinau o amgylch y cae. Diolch eto i bawb a helpodd ar y diwrnod. Llawer gormod i'w nodi yn unigol, ond rydym yn ddiolchgar iawn.

Yn gynharach y tymor hwn, aeth 5 disgybl i gynrychioli'r ysgol yn **gala nofio** WASPS. Doedd neb wedi llwyddo i gyrraedd y rownd nesaf ond ymdrech arbennig gan Lowri, Evan, Jack, Osian ac Ifan.

Hoffwn groeso dau **ddisgybl newydd**, Amy a Tiggy, sydd wedi ymuno â ni tymor yma. Croeso cynnes i'n teulu ysgol yma yn Llanrhaeadr.

Fel rhan o'r **Siarter Iaith**, roeddem yn lwcus iawn i gael cantores Sian James i ddod i'r ysgol i ganu gyda'r disgyblion. Cawsom brynhawn hwyliog iawn yn dysgu rhigymanau a hwiangerddi Cymraeg. Roedd y plant yn medru canu gyda hi wrth iddi ganu'r delyn. Diolch i Mrs Turner am drefnu.

Mae'r **profion cenedlaethol** wedi eu cwblhau. Roedd yn bwysig i ni fod y disgyblion yn ddigynnwrf yn y profiad eleni, felly roedd ein hagwedd ni yn llawer mwy llac. Roedd y disgyblion wedi ymateb yn wych. Rydym yn defnyddio'r sgorau fel mesurydd yn yr ysgol ond rydym yn defnyddio llawer o elfennau eraill hefyd, felly nid yw'r canlyniadau yn derfynol. Cofiwch nad yw canlyniad prawf yn dangos pa mor arbennig yw eich plentyn. Ystyriwch y dyfyniad hwn – "Mae canlyniadau prawf a mesuriadau cyrhaeddiad yn dweud ble mae eich plentyn, ond nid yw'n dweud ble all eich plentyn gyrraedd."

Rydym wedi mwynhau ein **sesiynau yoga** wythnosol, diolch i Kirsty Martuccio. Mae'r disgyblion (a rhai staff) wedi bod yn mwynhau dysgu sut i reoli eu anadlu i reoli pryder a phwysau. Mae dysgu sgiliau i wella gofal yn bwysig i ddisgyblion ymlacio ac anghofio am bethau sydd yn eu poeni.

Heddiw, chwaraeodd fîm blwyddyn 5 a blwyddyn 6 yng nghystadleuaeth hoci yn Trallwm gyda 21 fîm arall. Chwaraeodd fîm blwyddyn 5 yn dda iawn, gan ennill 1 gêm, dod yn gyfartal mewn 2 gêm a cholli dim ond un. Enillod fîm blwyddyn 6 3 gêm, dod yn gyfartal mewn 2 gêm ac ennill y gêm gymhwysol i gyrraedd ffeinal y Sir ar Fehefin 19fed, i gyd heb ildio yr un gôl drwy'r dydd. Hefyd fe enillon y cwpan ar wahaniaeth goliau! Camp arbennig, da iawn.

Mae hi'n anodd coelio mai dim ond un hanner tymor sydd i fynd! Rydw i a'r staff yn edrych ymlaen at hanner tymor arall llawn hwyl, gyda llawer o weithgareddau a digwyddiadau gan gynnwys ein mabolgampau ar y Dydd Mercher cyntaf yn ôl. Bydd mwy o fanylion yn cael eu gyrru cyn bo hir ac edrychwch ymlaen at eich gweld chi yma ar y diwrnod. Mwynhewch eich hanner tymor! Gwelwn ni chi yn ôl ar Ddydd Llun Mehefin 3ydd.

Cofion



Mr Jonathan Richards

<b>27– 31 Mai</b>	Gwyliau hanner tymor	<b>Hysbysiadau</b>  <b>Bagiau dillad y ddraig</b> Casglu bagiau ar gyfer elusen Goffennaf 10fed.  <b>Clwb Chwaraeon</b> Dydd Mercher tan 4.30y.p.  Cysylltwch â ni ar <b>01691 780352</b> neu <b>office@llanrhaeadr.powys.sch.uk</b>  <b>Gwelwn ni chi ar Dydd Llun Mehefin 3ydd.</b>  <b>Os gwelwch yn dda a fedrwch wirio unrhyw dyled yn eich cyfrif. Mae Cyngor Sir Powys wedi bod yn holi'r ysgol i atgoffa rhieni am eu dyled. Diolch.</b>
<b>5/6/19</b>	Mabolgampau	
<b>6/6/19</b>	Cyfarfod ar gyfer rhieni Cyfnod Sylfaen a rhieni newydd (Derbyn, 1 a 2 flwyddyn nesaf) 3.30y.p.	
<b>10/6/19</b>	Tyfu i fyny – sgwrs gyda nyrs (bl 6)	
<b>11/6/19</b>	Trip CA2 I Gaer	
<b>12/6/19</b>	Rownd derfynol tenni Malwdyn yn Drenewydd	
<b>13/6/19</b>	Mabolgampau yr ardal yn Llanfyllin	
<b>24 – 26 Mehefin</b>	Glanllyn (Bl 5 a 6)	
<b>26/6/19</b>	Bore ar gyfer disgyblion newydd	
<b>28/6/19</b>	Criced/Rownderi (Bl 5 a 6) yn Llangedwyn	
<b>2/7/19</b>	Mabolgampau ail ddyddiad (nodwch ei fod wedi newid ers y dyddiad gwreiddiol)	
<b>3-5 Gorff</b>	Bl 6 Ysgol Uwchradd	
<b>3/7/19</b>	Bore disgyblion newydd/Cyfnod pontio blwyddyn 2	
<b>10/7/19</b>	Disgyblion newydd diwrnod cyfan Casglu dillad bagiau Draig. Noson Rhieni ADY	
<b>12/7/19</b>	Mabolgampau ar gyfer CA2 yn yr Ysgol Uwchradd	
<b>18/7/19</b>	Gwasanaeth blwyddyn 6	